# Mawndiroedd

## Cam 1: Nodi'r angen am ddysgu

### Cyd-destun dilys ar gyfer dysgu

**Cwestiwn mawr / mater byd-eang / syniad mawr:**

Mae mawndiroedd iach yn hanfodol i fywyd ar y Ddaear.

**Pam mae'n bwysig i'n pobl ifanc ddysgu hyn:**

- Mae mawndiroedd ymhlith yr ecosystemau mwyaf cyfoethog o ran carbon ar y Ddaear, ac maent yn storio dwywaith cymaint o garbon na choedwigoedd y byd.
- Mae mawndiroedd yn wlyptiroedd sy'n gorchuddio 3% o arwynebedd tir y byd a 12% o arwynebedd tir y DU.
- Pan fyddant mewn cyflwr iach, mae mawndiroedd yn oeri'r hinsawdd, yn helpu i leihau perygl llifogydd ac yn cefnogi bioamrywiaeth.
- Mae tua 80% o fawndiroedd y DU wedi dirywio neu wedi cael eu difrodi oherwydd amrywiaeth o weithgareddau dynol.

### Creu ystyr

**Dealltwriaeth:**

Dylai'r dysgwyr ddod i ddeall y canlynol:

- Mae mawndiroedd yn hanfodol i'n goroesiad ni a rhywogaethau eraill.
- Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio ac yn rheoli mawndir yn bwysig nawr ac yn y dyfodol.
- Mae mawndiroedd iach yn dal $CO_2$ o'r atmosffer drwy ffotosynthesis.
- Mae mawndiroedd iach yn storio symiau enfawr o garbon, gan ddal tua 3.2 biliwn tunnell yn y DU yn unig.
- Amcangyfrifir bod mawndiroedd sydd wedi'u difrodi yn ffynhonnell net o allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer yn hytrach na dalfa net, oherwydd y ffordd y maen nhw wedi cael eu rheoli yn y gorffennol.
- Mae camau'n cael eu cymryd nawr i adfer a rheoli mawndiroedd yn gynaliadwy yn y DU.

**Bydd dealltwriaeth y dysgwyr yn seiliedig ar:**

- Dal a storio carbon
- Newid hinsawdd
- Bioamrywiaeth
- Gwasanaethau ecosystemol
- Ffotosynthesis
- Cynefinoedd
- Defnydd tir
- Llifogydd
- Llygredd
- Risg
- Gwydnwch

## Cam 2: Pennu cynnydd

| Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol | | |
|---|---|---|
| **Mae'r dysgwyr eisoes yn gwybod y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Mae'r dysgwyr eisoes yn gallu gwneud y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Mae'r dysgwyr eisoes yn deall y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma |

| Dibenion dysgu | Dysgu trosglwyddadwy |
|---|---|
| **Gall y dysgwyr ddod yn fwyfwy effeithiol drwy:**<br>• Esbonio'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n dysgu amdanynt.<br>• Meddwl yn greadigol er mwyn ail-fframio a datrys problemau.<br>• Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu.<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned. | **Gallai'r dysgwyr ddefnyddio beth maen nhw wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau eraill drwy:**<br>Addysgwr i gofnodi yma |

| Caffael gwybodaeth a sgiliau | |
|---|---|
| **Dylai'r dysgwyr ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth am y canlynol:**<br>• Beth yw mawndiroedd?<br>• Pa fathau o fawndiroedd sydd i'w cael yng Nghymru?<br>• Pa wasanaethau ecosystemol mae mawndiroedd yn eu darparu?<br>• Sut allwn ni wella iechyd mawndiroedd?<br>• Pa fath o weithgareddau dynol sydd yn cael effeithiau niweidiol ar fawndiroedd?<br>• Sut mae mawndiroedd iach yn effeithio ar iechyd a lles pobl?<br>• Pam ei bod hi'n hanfodol bod ecosystemau mawndiroedd yn cael eu hadfer a'u gwarchod? | **FfLlRh / FfCD / MDaPh**<br>Addysgwy i benderfynu ar y sgiliau i ganolbwyntio arnynt yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr |

| Cwestiynau hanfodol |
| --- |
| **Dylai'r myfyrwyr ystyried ac ailystyried y canlynol:**<br>**Cwestiynau ar lefel pwnc:**<br>• Pam mae mawndiroedd yn bwysig?<br>• Sut y gall mawndiroedd iach ein helpu i addasu i newid hinsawdd?<br>**Cwestiynau ar lefel uned:**<br>• Sut allwn ni reoli mawndiroedd yn gynaliadwy?<br>• Sut allwn ni wella mawndiroedd?<br>• Sut allwn ni leihau ein heffaith ar fawndiroedd?<br>• Pa fath o weithlu medrus sydd ei angen i reoli mawndiroedd yn gynaliadwy? |

## Cam 3: Dangos beth a ddysgwyd

| Portffolio'r dysgwr | Nodau cynnydd | Tystiolaeth o ddysgu |
| --- | --- | --- |
| **Gallai'r dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth drwy:**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Dylai'r dysgwyr wneud cynnydd yn y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Beth fyddech chi o bosib yn ei weld / ei glywed / ei ddarllen sy'n dangos cynnydd?**<br>Addysgwr i gofnodi yma |
| • Ymchwilio i wahanol fathau o fawndiroedd.<br>• Darganfod mawndiroedd cyfagos ac adnabod eu math.<br>• Esbonio neu ddangos sut mae systemau mawndir yn gweithio.<br>• Cyflwyno gwybodaeth am y gwasanaethau ecosystemol y mae mawndiroedd yn eu darparu.<br>• Esbonio'r defnydd hanesyddol o fawndiroedd.<br>• Archwilio arferion rheoli mawndir cynaliadwy.<br>• Cymharu sut y rheolir mawndiroedd mewn gwledydd eraill. | • Eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr.<br>• Hyd a lled eu gwybodaeth.<br>• Eu dealltwriaeth o syniadau'r MDaPh.<br>• Pa mor soffistigedig yw eu sgiliau.<br>• Eu gallu i drosglwyddo dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. | Addysgwr i gyfrannu er mwyn dogfennu dilyniant dysgwyr. |

## Cam 4: Cynllun dysgu

| **Trosolwg o'r gweithgareddau dysgu**<br>(i'w bennu gan yr addysgwr) | **Ffocws dysgu**<br>(Caffael / Creu ystyr / Trosglwyddo) | **Cynnydd yn y dyfodol**<br>(Sut ddylai'r dysgwyr gael eu datblygu nesaf?) |
|---|---|---|
| Mae'r adnoddau hyn, eu gwybodaeth ategol a gemau a gweithgareddau eraill, ar gael ar ein tudalen we addysg 'Mawndiroedd'.<br>• Cynllun gweithgaredd - Pam mae mawndiroedd yn bwysig?<br>• Cynllun gweithgaredd – Mawndiroedd sy'n crebachu<br>• Nodyn gwybodaeth – Mawndiroedd: Sut mae dalfeydd carbon yn troi'n allyrwyr carbon<br>• Cynllun gweithgaredd – Asesu cyflwr, dyfnder, oedran a chynnwys carbon mawndir<br>**Neu**:<br>• Edrychwch ar sut rydym yn rheoli mawndiroedd ar dudalennau gwe y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.<br>• Archwiliwch Borth Data Mawndiroedd Cymru i ddarganfod ble mae mawndiroedd a'r ardaloedd sydd angen eu hadfer.<br>• Cynhaliwch astudiaeth achos o fawndir cyfagos.<br>• Cymharwch fawndiroedd lleol/rhanbarthol gyda gwledydd eraill.<br>• Ymchwiliwch i'r defnydd cyfredol a/neu hanesyddol o fawn.<br>• Archwiliwch rôl mawndiroedd fel llefydd arwyddocaol i ddiwylliant Cymru, gan gynnwys darparu ysbrydoliaeth ar gyfer straeon a chaneuon, llwybrau teithio, ac enwau lleoedd. | **Caffael sgiliau:**<br>• Sgiliau maes ac arsylwi.<br>• Casglu data.<br>• Cynllunio ar gyfer gweithredu.<br>• Meddwl yn feirniadol a chymharu.<br>• Monitro newid.<br>**Gwybodaeth am y canlynol:**<br>• Rheoli tir.<br>• Achos ac effaith, sut mae ein poblogaeth gynyddol yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol.<br>• Sut rydym yn rheoli ein hanghenion ynni'n gynaliadwy.<br>• Sut mae cynhesu byd-eang yn effeithio ar ecosystemau.<br>**Cydblethu'r dysgu:**<br>• Defnyddio gwybodaeth i lywio camau gweithredu yn y dyfodol i leihau allyriadau carbon.<br>• Dylanwadu ar eraill i gefnogi gwella iechyd mawndiroedd.<br>**Trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth:**<br>• Colli cynefinoedd<br>• Tanau gwyllt<br>• Amaethyddiaeth<br>• Llifogydd<br>• Bioamrywiaeth<br>• Ecosystemau eraill fel coetiroedd.<br>• Defnyddio adnoddau naturiol<br>• Iechyd dynol<br>• Gyrfaoedd | **Mae angen i'r dysgwyr ehangu eu gwybodaeth am y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma<br><br>**Mae angen i'r dysgwyr fod yn fwy medrus yn y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma |

## I gefnogi dysgu pellach am fawndiroedd:

- Plannwch ardd gorsiog yn eich lleoliad.
- Ymchwiliwch i ddewisiadau amgen yn lle compost di-fawn i'w defnyddio wrth dyfu planhigion yn eich lleoliad.
- Ymwelwch â mawndir cyfagos gyda'ch dysgwyr.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



NATURA 2000

Life

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government